



Ffurflen astudiaeth

Enw'r astudiaeth	Llunio Siarter Cynghorau Tref a Chymuned ar Fannau Brycheiniog
Partner	Un Llais Cymru, Cynghorau Tref a Chymuned
Geiriau allweddol	Canolwr, partneriaethau, cynghorau tref a chymuned, siarter, awdurdod parc cenedlaethol

1. Cyflwyniad byr

Cydweithiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog â 50 o gynghorau tref a chymuned ar draws y parc cenedlaethol i ysgrifennu siarter a chynllun gweithredu fyddai'n pennu ac yn cyfeirio gwell ffyrdd o weithio ar y cyd (yn ôl ffiniau perthnasol) er lles pobl yr ardal.

2. Manylion y pwnc sydd wedi'i drafod

Mae cynghorwyr tref a chymuned yn cynrychioli eu cymunedau lleol. Maen nhw'n ymgysylltu ag awdurdod y parc cenedlaethol mewn sawl ffordd i'r diben hwnnw megis: rhoi sylwadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio; helpu i baratoi'r cynllun datblygu lleol; ymateb i ymgynghori am gynlluniau eraill yr awdurdod (e.e. cynllun rheoli'r parc cenedlaethol – prif gynllun y parc – a sawl cynllun arall sy'n ymwneud â themâu'r prif gynllun); cydweithio â swyddogion arbenigol y parc i lunio prosiectau a gwasanaethau mewn amryw feysydd: ymwelwyr, hawliau tramwy, cyfleusterau cymuned, achlysuron, gwyliau ac ati.

Yn ogystal â chydweithio o'r fath, mae awdurdod y parc cenedlaethol wedi ceisio cynnal trafodaethau cyffredinol gyda'r cynghorau dros y blynyddoedd – a hynny ar ffurf cyfarfodydd cyswllt. Yr arfer yw cwrdd â chynrychiolwyr nifer o gynghorau bob tro er mwyn cyfnewid syniadau a galluogi swyddogion sy'n ymwneud â meysydd a allai fod o ddiddordeb i'r cynghorau i gymryd rhan. Mae'n anodd pennu nifer delfrydol y cynghorau na'r lleoliadau a'r amseroedd delfrydol ynglŷn â chyfarfodydd o'r fath am fod yr ardal yn un wledig ei natur lle mae teithiau'n tueddu i fod yn hirach ac mae cyfrifoldebau eraill ar y cynghorwyr tref a chymuned gan gynnwys amaeth, yn aml.

At hynny, bydd prif weithredwyr, cyfarwyddwyr a swyddogion eraill awdurdod y parc cenedlaethol yn mynychu cyfarfodydd cynghorau unigol er ei bod yn anodd mynd i holl gyfarfodydd 50 o gynghorau.

Mae'r cysylltiadau hynny'n gynhyrchiol ond mae'n amlwg bod rhai materion yn codi dro ar ôl tro megis dehongli'n gyson ofynion trefn y cynllunio ar gyfer rheoli datblygu a faint o amser a gaiff cynghorau i ymateb i amryw ddogfennau ymgynghori.

3. Camau sydd wedi'u cymryd

Cynigiwyd y siarter enghreifftiol luniodd Un Llais Cymru, WLGA a Llywodraeth Cymru i gynghorau'r parc yn ffordd arloesol o ddatrys y broblem. Roedden nhw o blaid y syniad o lunio siarter fyddai'n berthnasol i awdurdod y parc cenedlaethol ac roedd llawer o blaid paratoi cynllun gweithredu ynghyd â'r siarter i drin a thrafod gwahanol feysydd.

Ysgrifennwyd a chyflwyno siarter yn ôl gorchwyl awdurdod parc cenedlaethol – ynghyd â chynllun gweithredu – yn 2011/12. Fis Mawrth 2012, gwahoddwyd y cynghorau i gyfarfod i adolygu'r cynnydd a mireinio'r siarter a'i chynllun gweithredu ar gyfer 2012/13. Cymerodd Un Llais Cymru ran flaengar



Ffurflen astudiaeth

yn llwyddiant y broses, ac fe sefydlodd rhai o gynghorwyr a swyddogion datblygu'r mudiad weithgor i helpu awdurdod y parc cenedlaethol i lunio'r siarter.

Llofnododd pwyllgorau ardal Un Llais Cymru yn y parc y siarter wedyn. Yn ystod achlysur cyflwyno'r siarter, llofnododd cadeiryddion Un Llais Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a chynghorau tref a chymuned y parc y ddogfen.

4. Buddion megis gwella gwasanaethau, gwella trafodaethau am ariannu a threfnu gwasanaethau rhwng mudiadau'r trydydd sector a'r awdurdodau lleol, trefniadau cymorth ar ffurfiau amgen ac ati.

Yn ogystal â gwella'r trafodaethau a helpu'r awdurdod a'r cynghorau i ddeall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd yn yr amryw feysydd mae'r siarter yn eu cwmpasu, mae'r cynllun gweithredu wedi arwain at rai gwelliannau penodol megis:

- Presenoldeb da yn yr hyfforddiant i gynghorau cymuned ym maes cynllunio
- Ymwybyddiaeth cynghorwyr cymuned o gyfleoedd i ymuno â'r awdurdod
- Rôl cynghorau cymuned ac Un Llais Cymru ynglŷn ag adolygu amcanion gwella'r awdurdod

5. Cynnal a/neu ddatblygu'r buddion

I barhau â'r buddion, rhaid i awdurdod y parc cenedlaethol, Un Llais Cymru a'r cynghorau cymuned a thref gymryd rhan mewn trafodaethau, cymryd camau ychwanegol a phenderfynu sut y byddan nhw'n gweithredu yn ôl ffiniau eu gorchwylion yn y dyfodol er lles cymunedau'r ardal.

6. Cyd-fynd ag Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Mae ymgysylltu trwy'r siarter wedi bod o les i awdurdod y parc cenedlaethol a'r cynghorau lleol yn ôl nifer y rhai sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y cynghorau a nifer y rhai sydd wedi llofnodi'r siarter.

7. Trin a thrafod y prosiect yn ôl Egwyddorion Gwladol Ymgysylltu Cyhoeddus Cymru

Gwerthuso

1 = gwael iawn: 2 = gwael: 3 = gweddol: 4 = da: 5 = rhagorol

Egwyddor	Gwerthuso
Ymgysylltu ar gyfer effaith sylweddol.	4
Annog a galluogi pawb sydd ynghlwm i gymryd rhan yn ôl eu dewis.	5
Ymgysylltu'n drefnus ar yr adeg briodol ac yn y modd priodol.	4
Cydweithio â phartneriaid perthnasol.	5
Rhoi gwybodaeth briodol, hawdd ei deall, heb jargon.	4
Gofalu y bydd yn haws i bobl gymryd rhan.	4
Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol.	4



Ffurflen astudiaeth

Rhoi adnoddau/cymorth priodol i'r ymgysylltu, fel y bydd yn effeithiol.	4
Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad.	4
Dysgu a lledaenu'r gwersi i wella proses yr ymgysylltu.	4

Manylion cysylltu

Enw: Clare Parsons

Swydd: Rheolwr Cymunedau Cynladwy

Sefydliad: Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ebost: clare.parsons@breconbeacons.org

Ffôn: 01874 620434